PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# COFNODION o
# Gyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Theuluoedd a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant yn ein Gofal
# 1 Chwefror 2022

## 1. Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd Jane Dodds AS bawb i'r cyfarfod. Eglurodd hi mai hwn yw cyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Theuluoedd a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant yn ein Gofal. Cadarnhaodd fod cefnogaeth drawsbleidiol yn y Senedd ar gyfer y ddau grŵp hyn.

## 2. Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Jane Dodds | Aelod o'r Senedd |
| Sioned Williams | Aelod o'r Senedd |
| Heledd Fychan | Aelod o'r Senedd |
| Mike Hedges | Aelod o'r Senedd (neu aelod o'i staff) |
| Jenny Rathbone | Aelod o'r Senedd |
| Sarah Murphy | Aelod o'r Senedd |
| Rhys Taylor | Staff Jane Dodds AS |
| Shannon Orritt | Staff Mabon ap Gwynfor AS |
| Andrew Jenkins | Staff Sioned Williams AS |
| Eleri Griffiths | Staff Heledd Fychan AS |
| Ken Moon | Staff Heledd Fychan AS |
| Ioan Bellin | Staff Rhys ab Owen AS |
| Ryland Doyle | Staff Mike Hedges MS |
| Alex Hughes-Howells | Staff Peredur Owen Griffiths AS |
| Gareth Llewellyn | Staff Peredur Owen Griffiths AS |
| Owen Evans | Plant yng Nghymru |
| Louise O'Neill | Plant yng Nghymru |
| Helena Molloy | Plant yng Nghymru |
| Helen Mary Jones | Ymgynghorydd, Lleisiau o Ofal Cymru |
| Deborah Jones | Voices from Care |
| Sally Holland | Comisiynydd Plant Cymru |
| Chloe Gallagher | Swyddfa'r Comisiynydd Plant |
| Sharon Lovell | Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru |
| Patrick Thomas | Ymddiriedolwr Plant yng Nghymru |
| Mike Greenaway | Chwarae Cymru |
| Izzabella James | Home Start Cymru |
| Rachel Thomas | Swyddfa'r Comisiynydd Plant |
| Peter Jones | Cŵn Tywys Cymru |

| | |
|---|---|
| Sarah Durrrant | TGP Cymru |
| Elinor Crouch-Puzey | NSPCC Cymru |
| Amy Bainton | Barnardo's Cymru |
| Viv Laing | NSPCC Cymru |
| Brendan Roberts | Yr Adran Gwaith a Phensiynau/Person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal |
| Rebecca Millar | Care for the Family |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AS | |
| Llyr Gruffydd AS | |
| Jack Sargeant AS | |
| Mark Isherwood AS | |
| Joyce Watson AS | |
| Peredur Owen Griffiths AS | |
| Laura Anne Jones AS | |
| Dave Williams, Cadeirydd Plant yng Nghymru | |
| Gethin Matthews-Jones, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant | |
| Tracey Holdsworth, NSPCC Cymru | |
| Suzanne Griffiths, Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru | |

**3. Penodi Swyddogion**

Siaradodd Owen Evans, Prif Weithredwr Plant yng Nghymru, ynghylch yr eitem hon. Dyma a gadarnhawyd:

Penodwyd Jane Dodds AS yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Theuluoedd – Jenny Rathbone AS a'i henwebodd / Sarah Murphy AS ac Eleri Griffiths (ar ran Heledd Fychan AS) a eiliodd yr enwebiad.
Nid oedd angen Is-gadeirydd.
Plant yng Nghymru a fydd yn darparu gwasanaeth ysgrifenyddiaeth ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Penodwyd Jane Dodds AS yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant yn ein Gofal – Eleri Griffiths (ar ran Heledd Fychan AS) a'i henwebodd, a Sarah Murphy AS a eiliodd yr enwebiad.
Nid oedd angen Is-gadeirydd.
Lleisiau o Ofal Cymru a fydd yn darparu gwasanaeth ysgrifenyddiaeth ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cafwyd peth trafodaeth o'r angen i'r ddau grŵp barhau, gan fod cynifer o grwpiau trawsbleidiol eisoes yn bodoli. Cadarnhaodd Jane Dodds AS fod angen cydnabyddedig i gadw'r ddau ar wahân a bod angen cyfiawn iddynt barhau yn y dyfodol.

## 4. Cytuno ar y Cylch Gorchwyl

Rhannodd Jane Dodds AS brif ddiben y naill Grŵp Trawsbleidiol a'r llall, fel y'u drafftiwyd gan Plant yng Nghymru a Lleisiau o Ofal Cymru yn y drefn honno.

Cytunodd y rhai a oedd yn bresennol ar y ddwy restr, ond gofynnodd Sharon Lovell o NYAS Cymru am i wasanaethau Eiriolaeth Statudol yng Nghymru gael eu hychwanegu at gylch gorchwyl Plant yn Ein Gofal, i gynnwys eiriolaeth ym meysydd iechyd meddwl ac addysg. Cytunodd Jane Dodds AS i ychwanegu'r pwyntiau hyn.

## 5. Hawliau plant yng Nghymru a'r heriau sydd o'n blaenau

Rhoes Jane Dodds AS groeso i Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru a diolchodd iddi am ei hymrwymiad yn ystod ei chyfnod yn y swydd.

Soniodd y Comisiynydd pa mor ddiolchgar ydoedd o weld mentrau polisi amrywiol yn cael eu cyflwyno yn ystod ei chyfnod, ond pwysleisiodd y bydd angen sicrhau hawliau cyfreithiol i blant a phobl ifanc (gyda chyllid) wrth symud ymlaen. Bydd angen i ddeddfwriaeth sylfaenol neu ganllawiau statudol i blant fod yn flaenoriaeth barhaus.

Tynnodd y Comisiynydd sylw at ddigwyddiad a fydd yn cael ei gynnal, a gyflwynir gan y Prif Weinidog, ar 4 Ebrill 2022 o 16.30, lle y bydd yn cyflwyno ei sylwadau terfynol fel Comisiynydd Plant Cymru.

Nododd y Comisiynydd rai o'r prif lwyddiannau yng ngwaith ei swyddfa yn ystod y Bumed Senedd, gan gynnwys:

- Y Senedd Ieuenctid – gyda chefnogaeth y Senedd
- Adroddiad Cadernid Meddwl – dyma garreg filltir a fydd yr un mor bwysig yn y dyfodol

Mae rhywfaint o fusnes heb ei orffen y bydd angen canolbwyntio arno, gan gynnwys:

- Deddfwriaeth i amddiffyn a chefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, gan fod nifer o hawliau penodol ar goll ar hyn o bryd.
- Bylchau yn y gefnogaeth i bobl ifanc hyd at 25 oed. Mae angen gwneud hyn yn fater i bawb
- Y ffaith nad yw addysg ddewisol yn y cartref yn ddigon cryf
- Diogelu mewn ysgolion
- Tlodi plant – dyma un o'r heriau mwyaf. Mae mentrau a gyflwynwyd i gefnogi darpariaeth blynyddoedd cynnar a phrydau ysgol am ddim wedi cael eu croesawu'n fawr, ond bydd angen i'r Senedd ganolbwyntio wrth symud ymlaen.
- Diogelu gwasanaethau cyhoeddus

Nesaf, cyflwynwyd ychydig o syniadau ar flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd:

- Diwygio gofal cymdeithasol
- Hawliau penodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal
- Deddfwriaeth ynghylch rhianta corfforaethol
- Dyletswyddau cryfach ar wasanaethau cyhoeddus
- Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn deddfwriaeth yn llawn

Diolchodd Jane Dodds AS i'r Comisiynydd eto ac eiliwyd hyn gan Sarah Murphy AS. Soniodd fod cefnogaeth y Comisiynydd i'w hetholwyr lleol wedi bod yn enfawr a chytunodd fod angen ymgorffori hawliau plant ym mhob darn o ddeddfwriaeth.

Nododd Helen Mary Jones a Debbie Jones o Leisiau o Ofal Cymru rai pryderon pellach ynglŷn â'r angen am newid gwirioneddol yn y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yng Nghymru. Nid yw hawliau plant yn cael eu hawlio gan y rhai sydd mewn gofal yng Nghymru – mae hawliau plant wedi eu gwreiddio mewn llawer o wledydd eraill ac mae Cymru ar ei hôl hi. Mae gweledigaeth i gael dull sy'n seiliedig ar hawliau plant ar gyfer wasanaethau, gyda gwaith yn cael ei wneud i ofyn i'r rhai sydd mewn gofal sut olwg fyddai ar wasanaeth sydd wedi'i alinio'n llawn. O ran Bwrdd Goruchwylio presennol Llywodraeth Cymru, mae bwriad iddo gael ei gyd-gadeirio gan bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, ac mae Lleisiau o Ofal Cymru'n aelod ohono. Hefyd, bydd angen iddo fwrw ymlaen â'r materion hyn.

## 6. <u>Trafod blaenoriaethau'r ddau Grŵp Trawsbleidiol</u>

Cadarnhaodd Jane Dodds AS y bydd yn ychwanegu CCUHP i Gylch Gorchwyl y ddau Grŵp Trawsbleidiol, ynghyd ag effeithiolrwydd eiriolaeth, yn enwedig mewn achosion iechyd meddwl. Bydd aelodau'n cael cyfle i roi'r wedd derfynol ar y Cylchoedd Gorchwyl pan fydd y ddau Grŵp yn cyfarfod ar wahân.

Gellir e-bostio unrhyw sylwadau pellach at jane.dodds@senedd.cymru

## 7. <u>Unrhyw fater arall</u>

Cytunwyd ar y canlynol:

- Bydd y ddau Grŵp Trawsbleidiol yn parhau fel endidau ar wahân.
- Plant yng Nghymru a fydd yn darparu gwasanaeth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Theuluoedd.
- Lleisiau o Ofal Cymru a fydd yn darparu gwasanaeth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant yn ein Gofal.

## 8. <u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>

Cadarnhaodd Jane Dodds AS y byddai'n gweithio gyda'r ddau sefydliad uchod i drefnu cyfarfodydd yn y dyfodol a diolchodd i bawb am roi o'u hamser i fod yn bresennol. Pwysleisiodd fod yn rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i yrru'r

agenda hon yn ei blaen, a defnyddio lleisiau a phrofiadau plant a phobl ifanc eu hunain i wneud y pwynt yn gliriach fyth. Mae angen i bolisïau da fod ar waith ac mae angen i ni fod yn arloesol!

Daeth y cyfarfod i ben.